

Rhannu eich profiad o gofrestrau achrededig

Fel rhan o'n proses achredu rydym yn ceisio adborth gan gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, y cyhoedd, sefydliadau proffesiynol a chynrychioliadol, cyflogwyr ac eraill.

Beth hoffem ni gennych chi

Hoffem glywed am y profiadau a gawsoch gyda chofrestr achrededig. Hoffem wybod pam eich bod wedi bod mewn cysylltiad â nhw a beth oedd eich profiad – da a beth y gellid ei wella. Rhowch ychydig o fanylion i ni a byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am ragor o wybodaeth.

Pam mae angen y wybodaeth rydych chi'n ei rhannu gyda ni

Gall Cofrestrau Achrededig sydd wedi bodloni ein Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig, a'u hunigolion cofrestredig, ddefnyddio ein 'marc ansawdd'. Rydym yn gwirio bod Cofrestrau yn parhau i fodloni ein Safonau yn rheolaidd. Mae gwybodaeth a rennir gyda ni gan gleifion, gweithwyr proffesiynol, y cyhoedd a chyflogwyr am eu cysylltiadau a'u rhyngweithio â Cofrestrau yn rhoi darlun o ba mor dda y mae'r Cofrestrau yn diogelu'r cyhoedd. Fe edrychir ar bob darn o wybodaeth a dderbyniwn yn unigol. Mae'n ein galluogi i gydnabod themâu, cryfderau a gwendidau ac i argymhell newidiadau. Mae eich adborth yn helpu ein Panel Achredu i wneud penderfyniadau. Rydyn ni'n cyhoeddi'r penderfyniadau hyn - gallwch chi ddod o hyd iddyn nhw [yma](#). Drwy rannu eich profiad gyda ni byddwch yn ein helpu i arwain sefydliadau i wella eu gwasanaethau. Byddwch yn helpu amddiffyn y cyhoedd. Mae'r mathau o brofiadau yr hoffem gael gwybod amdanynt yn cynnwys:

- Addysg a hyfforddiant
- Ymdrin â chwynion
- Gwybodaeth i'r cyhoedd
- Llywodraethu
- Rheoli risgiau.

Beth allwch ei ddisgwyl gennym ni

Mae rhannu eich profiadau o Gofrestrau Achrededig yn bwysig am ei fod yn eu helpu i ddysgu a gwella ac yn ein helpu ni i sicrhau eu bod yn parhau i gynnal ein safonau. Gall edrych yn ôl ar eich gofal iechyd neu gymdeithasol eich hun, neu rywun agos atoch, fod yn broses emosiynol. Rydym yn deall hyn, ac yn sensitif o ran sut fyddwn ni'n delio â'r adborth a dderbyniwn, gan ei drin fel pwysig a chyfrinachol. NID yw hyn yn broses gwyno. Os oes gennych gŵyn am Gofrestr Achrededig neu un o'u cofrestryddion, cysylltwch â'r Gofrestr Achrededig. Gallwch gysylltu â nhw ar y dudalen [chwilio am gofrestr](#). Gweler [ein canllawiau iechyd a gofal](#) i'ch helpu i benderfynu pwy i gysylltu â nhw.

Sut i gysylltu

Gallwch naill ai ein ffonio: ar 020 7389 8037 a siarad â'n Tîm Achredu. Anfonwch e-bost atom: accreditationteam@professionalstandards.org.uk Os yw'n well gennych, gallwch ysgrifennu atom: Accreditation Team Professional Standards Authority for Health and Social Care, 16-18 New Bridge Street, Llundain EC4V 6AG.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Pan fyddwch yn cysylltu â ni, byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn eich gwybodaeth o fewn pum diwrnod gwaith, a'i bod yn cael ei chofnodi yn erbyn y Safon(au) perthnasol. Weithiau, byddwn yn cysylltu â chi i gael rhagor o fanylion ynghylch eich profiad. Byddwn yn rhoi gwybod i chi sut ydym wedi ei ddefnyddio. (Gweler [ein hadroddiadau](#) o'r Cofrestrau Achrededig am enghreifftiau.)